

CYNGOR TREF Y RHYL – DEDDF ARCHWILIO CYHOEDDUS (CYMRU) 2004 – Adrannau 25 a 26

Rhoddir Hysbysiad Cyhoeddus y bydd Cyngor Tref y Rhyl, ar ddydd Mercher 18fed Medi 2019, yn cyfarfod i ystyried argymhellion a wnaed mewn adroddiad (dyddiedig 29/07/2019) gan Archwiliwr Cyffredinol Cymru.

Mae'r adroddiad yn nodi bod y Cyngor wedi methu â dilyn y broses briodol mewn perthynas â'i gytundeb gyda Chyngor Sir Ddinbych ar gyfer Canolfan Ddŵr y Rhyl ac wedi gwneud trefniant sy'n torri rheolaethau statudol ar gyfer benthycia.

Argymhellion yr Archwiliwr Cyffredinol yw:

Cymeradwyaeth benthycia

Dylai'r Cyngor Tref ail-ofyn am gymeradwyaeth ar gyfer y trefniant hwn gan Lywodraeth Cymru, gan gyfeirio at reoliad 20(1)(f) Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifo) (Cymru) 2003.

Prosiectau at y dyfodol

Wrth ystyried unrhyw brosiectau yn y dyfodol, dylai'r Cyngor Tref adnabod unrhyw ofynion statudol neu reoleiddiol perthnasol yn gynnar a sicrhau ei fod yn cydymffurfio gyda'r gofynion hynny yn amserol.

Cynhelir y cyfarfod am 6:00pm yn Siambr y Cyngor, y Swyddfeydd Dinesig, Canolfan Gymunedol Wellington, Ffordd Wellington, y Rhyl.

Dyddiedig 1af Medi 2019

G.J. Nickels
Clerc y Dref